Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llangoed
# Llangoed
# Biwmares
# Ynys Môn
# LL58 8SA

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 17/03/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Llangoed wedi'i lleoli ym mhentref Llangoed ar Ynys Môn. Mae'n gwasanaethu pentrefi Llangoed, Penmon a Glanrafon ac yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol Ynys Môn.

Mae 14 o ddisgyblion meithrin rhan-amser ac 81 o ddisgyblion amser llawn ar gofrestr yr ysgol. Derbynnir plant i'r ysgol yn rhan-amser ym mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed, ac yn amser llawn yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae'r ysgol wedi ei threfnu'n bedwar dosbarth yn y bore a thri dosbarth yn y prynhawn, sy'n cynnwys disgyblion o oedrannau cymysg.

Daw 10% o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn dod o gefndir gwyn Prydeinig. Mae bron i 20% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n agos i'r cyfartaledd sirol a chenedlaethol. Mae'r ysgol wedi adnabod 38% o ddisgyblion fel rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ionawr 2009, ac mae'r pennaeth yn ei swydd ers mis Medi 1990.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Llangoed yn 2014-2015 yw £4,923. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Ynys Môn yw £9,776 a'r lleiafswm yw £2,857. Mae Ysgol Gynradd Llangoed yn safle 33ain o'r 48 ysgol gynradd yn Ynys Môn o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Bod bron pob disgybl yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- Bod rhan fwyaf y disgyblion yn cyfranogi'n dda yn eu gwersi ac yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at eu gwaith
- Bod mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu'n briodol i wahanol ddibenion yn y Gymraeg a'r Saesneg gan ddangos ymwybyddiaeth gadarn o'r gwahanol ffurfiau yng nghyfnod allweddol 2
- Bod yr ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu addas a diddorol i'r disgyblion
- Bod rhan fwyaf yr athrawon yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau dysgu a gweithgareddau diddorol i ennyn cyfranogiad a diddordeb y disgyblion
- Bod rhan fwyaf yr addysgu yn gadarn

Fodd bynnag:

- Nid yw gallu rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 i ysgrifennu'n estynedig yn y Gymraeg na'r Saesneg ar draws y cwricwlwm wedi datblygu ddigon
- Nid yw'r medrau'n cael eu cynllunio'n fwriadus nac yn ddatblygol ar draws y cwricwlwm yn y ddau gyfnod allweddol
- Ychydig iawn yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu yn ddysgwyr annibynnol yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2
- Nid yw'r strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi'u gwreiddio'n gyson ar draws yr ysgol ac nid yw'r marcio bob amser yn nodi'n glir sut i wella'r gwaith
- Nid yw'r weithdrefn dracio yn cael ei defnyddio'n ddigonol er mwyn olrhain a monitro cynnydd y disgyblion

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Bod gan y pennaeth ac arweinwyr yr ysgol ymwybyddiaeth briodol o gryfderau yr ysgol a'r meysydd i'w datblygu
- Bod arweinyddiaeth gofalgar y pennaeth yn sicrhau bod lles disgyblion yn ganolog i waith yr ysgol
- Bod anghenion proffesiynol y staff yn cysylltu'n glir â blaenoriaethau'r ysgol
- Bod yr uwch dîm rheoli a'r cydlynwyr pwnc wedi cyfrannu'n effeithiol at y broses hunanarfarnu trwy arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau

Fodd bynnag:

- Nid yw ffocws arweinyddiaeth yr ysgol yn ddigon cadarn ar adolygu cynnydd a monitro effaith cynlluniau datblygu'r ysgol ar godi deilliannau disgyblion
- Nid yw rôl y corff llywodraethol ym mhrosesau strategol yr ysgol wedi'i datblygu'n llawn i herio'r ysgol ynghylch ei pherfformiad

## Argymhellion

A1 Codi safonau ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2

A2 Sicrhau bod y medrau yn cael eu cynllunio'n fwriadus ac yn ddatblygol ar draws y cwriwcwlwm yn y ddau gyfnod allweddol

A3 Cryfhau sylwadau marcio athrawon i sicrhau bod disgyblion yn deall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella

A4 Datblygu rôl y llywodraethwyr yn y broses hunanarfarnu a chynllunio gwelliant i'w galluogi i herio'r ysgol yn well am ei pherfformiad

A5 Gwella ansawdd cynlluniau'r ysgol ar gyfer gwella gan sicrhau eu bod yn rhoi ffocws clir ar yr agweddau penodol sydd angen eu datblygu a bod y gweithdrefnau'n cael eu monitro'n gyson

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yn gyffredinol, mae medrau sylfaenol llawer o'r disgyblion wrth ddechrau'r ysgol ar y lefel ddisgwyliedig am eu hoedran ac eithrio yn y Gymraeg, lle mae'r iaith yn newydd i'r rhan fwyaf ohonynt. Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando a chanolbwyntio'n dda. Gallant alw i gof dysgu blaenorol, gan ddefnyddio'r wybodaeth yn bwrpasol yn eu gwaith.

O ystyried eu cefndir ieithyddol, mae medrau llafar llawer o'r disgyblion yn datblygu'n fuan. Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cyfathrebu'n addas yn y Gymraeg gan ddefnyddio geirfa sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae'r rhan fwyaf yn ymateb yn effeithiol i gyfarwyddiadau'r athrawon. Mae hyn yn datblygu'n ymhellach yng nghyfnod allweddol 2, gyda llawer yn siarad yn hyderus mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn darllen ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae llawer yn darllen gyda mynegiant, gan ddefnyddio ystod o strategaethau yn dda wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall ychydig o ddisgyblion drafod cynnwys testun yn ystyrlon gan gyfeirio at ddigwyddiadau a chymeriadau yn y llyfrau y maent yn eu darllen.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn darllen ystod o ddeunyddiau darllen yn briodol yn y ddwy iaith ac mae eu dealltwriaeth o strategaethau darllen yn datblygu'n dda. Ar draws y cyfnod, mae mwyafrif yn defnyddio uwch fedrau darllen yn effeithiol i gaffael ar wybodaeth benodol o destun. Ar frig yr ysgol, mae ychydig o ddisgyblion o allu uwch yn trafod cynnwys y testun mewn modd aeddfed, yn enwedig yn y Saesneg. Er hynny, nid yw gallu disgyblion i drafod cynnwys llyfrau Cymraeg wedi datblygu cystal.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n annibynnol yn y Gymraeg gan ddefnyddio atalnodi sylfaenol gyda chywirdeb cynyddol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu'n briodol i wahanol ddibenion yn y Gymraeg a'r Saesneg gan ddangos ymwybyddiaeth gadarn o'r gwahanol ffurfiau. Maent yn defnyddio ystod o batrymau brawddegol amrywiol ac yn dangos gafael gynyddol ar gywirdeb ac atalnodi, gyda'r mwyafrif yn trefnu eu gwaith yn effeithiol mewn paragraffau. Er hynny, nid yw gallu rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 i ysgrifennu'n estynedig yn y Gymraeg na'r Saesneg ar draws y cwricwlwm wedi datblygu ddigon. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos parch tuag at eu gwaith ac yn cyflwyno gwaith taclus.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn adnabod, trefnu a defnyddio rhif yn effeithiol yn eu gweithgareddau o fewn yr ardaloedd dysgu. Mae ganddynt wybodaeth eang am nodweddion siapiau ac mae llawer yn defnyddio geirfa fathemategol yn gywir i drafod eu gwaith.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn defnyddio eu dealltwriaeth o werth lle i luosi a rhannu rhifau cyfan gyda degau, cannoedd a miloedd yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio ystod o fesurau mesur priodol yn hyderus yn eu gwaith. Er hynny, nid yw'r disgyblion yn defnyddio na chymhwyso'r medrau rhifedd maent yn eu dysgu mewn gwersi mathemateg ar yr un lefel ar draws y pynciau. Mae gorddefnydd o daflenni yn cyfyngu disgyblion i ddatblygu eu medrau yn llawn ac i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Yn y Cyfnod Sylfaen dros y tair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig mewn llythrennedd Cymraeg wedi dangos cynnydd ac wedi codi o'r 25% isaf i'r 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae'r tuedd yn anwastad ar gyfer datblygiad mathemategol, gyda pherfformiad yr ysgol wedi amrywio rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf lle'r oedd yn 2014. Mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch wedi dangos cynnydd dros y tair blynedd ddiwethaf. O gymharu ag ysgolion tebyg mewn datblygiad mathemategol, mae perfformiad yr ysgol wedi codi o'r 25% isaf, lle y bu dros ddwy flynedd, i'r 50% uwch yn 2014. Mae perfformiad yr ysgol mewn llythrennedd Cymraeg wedi codi o'r 25% isaf i'r 50% uwch.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig wedi amrywio dros y pedair blynedd ddiwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad disgyblion mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod uwchlaw'r canolrif heblaw am yn 2014. Mae perfformiad mewn Saesneg wedi amrywio rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf yn ystod yr un cyfnod. Mae perfformiad yr ysgol mewn Cymraeg wedi bod yn is na'r canolrif dros y pedair blynedd. Yn 2014, mae'r perfformiad yn gosod yr ysgol o fewn y 25% isaf ym mhob pwnc craidd. Ar y lefel uwch yn 2014, mae perfformiad disgyblion yr ysgol yn yr 50% uchaf mewn Saesneg a Chymraeg, a rhwng yr 50% is a 25% isaf mewn gwyddoniaeth a mathemateg. Yn gyffredinol, dros y tair blynedd flaenorol, mae perfformiad yr ysgol yn y pynciau craidd wedi bod yn gyson uwch na'r canolrif o gymharu ag ysgolion tebyg.

Nid oes patrwm nodedig o wahaniaeth yng nghyflawniad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau cinio am ddim o'u cymharu â'u cyfoedion. Yn ogystal, nid oes gwahaniaeth nodedig rhwng perfformiad bechgyn o'u cymharu â merched dros gyfnod o amser.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau personol.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn deall pwysigrwydd cadw'n heini a bwyta ac yfed yn iach. Maent yn manteisio ar weithgareddau fel chwaraeon a chlybiau ar ôl ysgol i ddatblygu eu ffitrwydd. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol yn dda. Dangosant barch at oedolion ac ymwelwyr a gofal tuag at eu cyfoedion.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfranogi'n effeithiol yn eu gwersi ac yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at eu gwaith. Maent yn cadw ar dasgau am gyfnodau estynedig ac yn dechrau cyfrannu'n briodol wrth wneud penderfyniadau am agweddau o'u dysgu. Mae bron pob disgybl yn cael llais amlwg ym mhenderfyniadau'r ysgol trwy waith y cyngor ysgol. Mae'r cyngor ysgol yn cyfrannu'n

adeiladol at benderfyniadau sy'n ymwneud â'u hysgol. Enghraifft dda o hyn yw sut y maent wedi ymateb i ddymuniadiau eu cyfoedion drwy gydweithio ag aelodau o'r gymuned i gynllunio a datblygu gardd ysgol sy'n ysgogi'r dysgu yn effeithiol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion hŷn yn chwarae rhan lawn mewn ystod eang o weithgareddau cymunedol fel ymweld â chartref yr henoed, gwahodd y gymuned i'r ysgol ar achlysuron arbennig fel Dydd Gŵyl Dewi a chasglu bwydydd ar gyfer banc bwyd Ynys Môn. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o'u rôl o fewn y gymuned ehangach yn llwyddiannus.

Mae canran presenoldeb disgyblion wedi gwella dros bedair blynedd ac yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

### Profiadau dysgu: Digonol

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu addas a diddorol i'r disgyblion. Caiff y gweithgareddau dysgu eu cyfoethogi trwy ymweliadau preswyl a gweithgareddau allgyrsiol. Mae'r ddarpariaeth yn cwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae'r ysgol wrthi'n addasu cynlluniau gwaith mewn perthynas â gweithredu gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Er hynny, nid yw'r medrau'n cael eu cynllunio'n fwriadus nac yn ddatblygol ar draws y cwricwlwm yn y ddau gyfnod allweddol. Nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd nac i ysgrifennu'n estynedig ar draws ystod o bynciau ac nid yw'r ddarpariaeth bob amser yn diwallu anghenion pob dysgwr, yn arbennig y disgyblion gallu uwch. Prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu yn ddysgwyr annibynnol, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2.

Mae darpariaeth gadarn ar gyfer datblygu'r Gymraeg a dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliant Cymreig yn arbennig mewn astudiaethau o'r ardal leol. Mae astudiaethau o lên gwerin lleol a chaneuon traddodiadol Cymreig ynghyd â gwaith celf gyda'r artist Catrin Williams, yn seiliedig ar 'Fy Nghymuned', yn enghreifftiau da o hyn.

Mae'r ysgol, drwy'r cyngor eco, yn hybu datblygiad cynaliadwy yn effeithiol drwy brosiectau garddio'r ysgol, ailgylchu a chompostio. Mae'n hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd gweithredu'n gynaliadwy. Mae gan yr ysgol amryw o gysylltiadau agos â sefydliadau addysgol mewn nifer o wledydd fel Zambia a Gwlad y Basg. Mae'r cysylltiadau hyn yn helpu'r disgyblion i ddeall a pharchu traddodiadau a ffyrdd o fyw mewn gwledydd eraill yn effeithiol.

### Addysgu: Digonol

Mae ansawdd yr addysgu yn gadarn yn y rhan fwyaf o'r gwersi a arsylwyd ar draws yr ysgol. Mae cydberthynas waith gadarnhaol yn bodoli rhwng yr oedolion a'r disgyblion ymhob dosbarth sy'n creu ethos cyfeillgar a gofalgar. Defnyddia rhan fwyaf yr athrawon amrywiaeth eang o ddulliau dysgu a gweithgareddau diddorol i ennyn cyfranogiad a diddordeb y disgyblion. Maent yn holi'n dreiddgar ac yn cyfeirio'n ôl at yr hyn mae'r disgyblion eisoes yn ei wybod er mwyn ymestyn eu dealltwriaeth a chodi eu safonau.

Mae’r athrawon a’r cymorthyddion dysgu yn modelu iaith yn dda, sy’n cyfrannu’n gadarnhaol at ddatblygiad iaith lafar y disgyblion. Lle mae’r addysgu yn llai effeithiol, mae’r rhediad yn araf ac nid yw’r disgwyliadau bob amser yn cyd-fynd ag anghenion pob disgybl yn llawn. Nid oes digon o gyfleoedd i feithrin annibyniaeth disgyblion bob tro.

Mae'r athrawon yn rhannu nodau gwersi yn gyson ond nid yw’r meini prawf llwyddiant bob amser yn cyd-fynd â’r dasg. Mae strategaethau asesu er mwyn symud y dysgu yn ei flaen yn datblygu'n briodol, ond nid yw'r broses eto wedi'i gwreiddio'n gyson ar draws yr ysgol. Mae'r athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn cynnig sylwadau cadarnhaol ar ddiwedd y gwaith. Er hynny, nid yw'r sylwadau bob amser yn ddigon penodol ac nid ydynt yn rhoi digon o arweiniad i'r disgyblion i ddeall sut i wella eu gwaith.

Mae’r athrawon yn asesu cynnydd disgyblion yn rheolaidd ac yn briodol, ond nid ydynt bob amser yn defnyddio’r wybodaeth yn ddigon effeithiol i adnabod a chefnogi unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae gweithdrefn dracio yn cael ei defnyddio er mwyn olrhain cynnydd y disgyblion drwy'r ysgol. Er hynny, nid yw eto wedi gwreiddio'n ddigonol i roi darlun cyflawn o berfformiad unigolion dros gyfnod nac yn cael effaith lawn ar wella deilliannau’r disgyblion.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn cynnwys gwybodaeth glir am gynnydd pob disgybl.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol y trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Caiff hyn ei gydlynu’n fedrus i sicrhau ymwybyddiaeth gadarn gan ddisgyblion o sut i fyw yn iach trwy redeg a chefnogi’r siop ffrwythau a chymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon. Mae sesiynau addoli ar y cyd, sesiynau amser cylch a gweithgareddau ar draws y cwricwlwm yn hyrwyddo ac yn cyfrannu’n dda at ddatblygu ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol y disgyblion.

Mae gan yr ysgol ystod o raglenni a pholisïau gweithredol sy’n deilio â lles ac iechyd y disgyblion yn effeithiol, ac mae gweithdrefnau priodol ar waith i ddelio ag unrhyw achosion o fwlïo. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd pwrpasol o arbenigedd asiantaethau allanol fel yr heddlu, y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaeth lles er mwyn cefnogi disgyblion a’u teuluoedd lle bo angen.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn bodloni’r gofynion statudol. Mae’r athrawon yn adnabod anghenion y disgyblion yn gynnar ac yn trefnu bod rhaglenni penodol yn cael eu cynllunio i sicrhau cefnogaeth addas ar eu cyfer yn y dosbarthiadau a thrwy grwpiau ymyrraeth. Mae trefniadau priodol yn eu lle i adolygu cynnydd y disgyblion yn erbyn eu targedau gyda’r rhieni ddwywaith y flwyddyn. Gwna’r ysgol ddefnydd effeithiol o gymorth gwasanaethau arbenigol allanol i gefnogi disgyblion ag anghenion addysgol penodol, pan fo’r angen.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn hybu ethos hapus a chynhwysol yn llwyddiannus. Mae'n darparu amgylchedd dysgu symbylus sy'n cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn dda. Mae pwyslais ar 'barch' o fewn yr ysgol yn gadarn.

Mae polisïau a gweithdrefnau'r ysgol yn hybu cydraddoldeb a mynediad cyfartal i'r ddarpariaeth yn effeithiol. Mae goddefgarwch a chydraddoldeb hiliol yn cael sylw priodol drwy waith thema fel cysylltiad yr ysgol â Tsiena.

Mae'r adeilad a'r safle yn cael eu defnyddio'n briodol i gwrdd ag anghenion y disgyblion. Mae'r neuadd bwrpasol yn cael ei defnyddio'n effeithiol ar gyfer gwasanaethau a gweithgareddau addysg gorfforol. Mae ystod eang o ardaloedd dysgu amrywiol y tu mewn a thu allan i'r adeilad a chyflenwad da o adnoddau o ansawdd priodol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd creadigol ac effeithiol o'r tir, y goedwig a'r cae o amgylch yr ysgol ar gyfer gwersi yn yr awyr agored. Mae'r ardal wyllt a'r ardd lysiau a ffrwythau yn adnoddau gwerthfawr sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol gan y staff i ddatblygu medrau disgyblion. Caiff yr adeilad a'r safle eu cadw'n lân a graenus.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Ar y cyfan, mae gan arweinwyr weledigaeth gadarn ar gyfer datblygu'r ysgol, sydd wedi ei seilio ar les disgyblion a datblygu dysgwyr i'w llawn botensial. Mae'r staff a'r llywodraethwyr yn rhannu'r weledigaeth hon. Mae arweinyddiaeth ofalgar y pennaeth a'r pennaeth cynorthwyol yn sicrhau bod lles y disgyblion yn ganolog i holl waith yr ysgol. Er hynny, nid yw ffocws yr arweinyddiaeth yn ddigon cadarn ar adolygu cynnydd a monitro effaith gweithdrefnau gwelliant ar godi deilliannau disgyblion.

Mae'r swydd ddisgrifiadau yn gyfredol ac mae unigolion yn cyflawni eu rolau yn briodol mewn perthynas uniongyrchol â chynlluniau'r ysgol. Er hynny, mae'r ysgol wedi adnabod yr angen i ddatblygu ymhellach rôl cydlynwyr. Nid yw eu rôl wedi datblygu'n llawn o ran monitro'r ddarpariaeth a chyfrannu at brosesau arfarnu'r ysgol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn addas i nifer o flaenoriaethau cenedlaethol. Er enghraifft, yn ddiweddar mae'r ysgol wedi dechrau canolbwyntio'n briodol ar fireinio'r cynlluniau gwaith i ymateb â gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae'r ysgol yn gweithredu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol, ac mae'n cynllunio'n briodol er mwyn ymateb i amddifadedd disgyblion.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn frwdfrydig ac yn gefnogol i waith yr ysgol, gan gyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gyffredinol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn dechrau dadansoddi ystod o ddata perfformiad yn briodol ac mae eu dealltwriaeth o sut mae'r ysgol yn perfformio o'i chymharu ag ysgolion tebyg yn dda. Maent hefyd yn cychwyn ymweld â'r ysgol i edrych ar agweddau ar y ddarpariaeth ac i arsylwi ar wersi. Er hynny, nid

yw eu rôl ym mhrosesau strategol yr ysgol wedi'i datblygu'n llawn i'w galluogi i fonitro'r gweithdrefnau sydd ar waith nac i herio'r ysgol ynghylch ei pherfformiad yn ddigon effeithiol. Nid yw'r corff llywodraethol wedi cyfrannu at y broses o lunio adroddiad hunanarfarnu'r ysgol nac yn rhan o adnabod a gosod blaenoriaethau cynlluniau gwella'r ysgol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r adroddiad hunanarfarnu cyfredol, er ychydig yn ddisgrifiadol mewn mannau, yn rhoi darlun cytbwys o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'n seiliedig ar ystod briodol o dystiolaeth gan gynnwys data cyrhaeddiad, deilliannau prosesau monitro, ymatebion i holiaduron disgyblion a barn rhieni.

Mae'r uwch dîm rheoli a'r cydlynwyr pwnc yn cyfrannu'n effeithiol at y broses hunanarfarnu trwy arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau. Caiff canfyddiadau'r gweithgareddau hyn eu trafod mewn cyfarfodydd staff. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y staff o safonau cyfredol disgyblion yn briodol. Yn gyffredinol, mae'r adroddiadau monitro yn ddadansoddol, ac yn nodi'r cryfderau yn briodol. Er hynny, nid yw'r meysydd sydd angen eu datblygu bob amser yn cael eu hamlygu'n ddigon clir. O ganlyniad, nid yw arweinwyr bob amser yn gweithredu'n ddigon effeithiol ar y wybodaeth sy'n deillio o'r broses fonitro er mwyn llunio blaenoriaethau addas i'r cynllun datblygu ysgol.

Mae'r cynllun datblygu yn ddogfen ddefnyddiol sy'n canolbwyntio'n glir ar godi safonau. Mae'n cynnwys strategaethau priodol ar gyfer gweithredu, ynghyd â meini prawf llwyddiant addas a threfniadau monitro. Er hynny, nid yw'r blaenoriaethau i gyd yn ddigon penodol, wedi eu seilio ar ddeilliannau'r broses hunanarfarnu, nac yn ddigon meintiol mewn mannau. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r ysgol i wella mewn meysydd penodol ac i arfarnu cynnydd yn erbyn y dangosyddion llwyddiant yn ffurfiol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaethau. Mae perthynas dda yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni ac mae'r ysgol wedi llunio llawlyfr defnyddiol iddynt er mwyn eu hysbysu am weithgareddau'r ysgol a gwaith y dosbarthiadau. Mae Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yn gefnogol iawn i waith yr ysgol ac yn codi arian sylweddol ar gyfer prynu adnoddau. Enghraifft o hyn yw'r ardal allanol a ddatblygwyd ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 2 i hybu eu lles a'u ffitrwydd.

Mae partneriaeth gadarn yn bodoli rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Mae cyfraniad y disgyblion tuag at weithgareddau cymunedol, fel gwasanaethau yn yr eglwys leol, yn cryfhau'r cyswllt rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Mae hyn, ynghyd â'r nifer helaeth o ymwelwyr a ddaw i'r ysgol, hefyd yn cyfoethogi eu profiadau dysgu yn llwyddiannus ac yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o'u cyfrifoldebau cymunedol.

Mae'r ysgol wedi sefydlu nifer o bartneriaethau effeithiol gydag asiantaethau allanol a'r awdurdod lleol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli gyda'r ysgol uwchradd. Caiff y disgyblion hŷn nifer o gyfleoedd defnyddiol i ymweld â'r ysgol uwchradd ac i weithio ar sawl prosiect a gweithgaredd fel gwyddoniaeth a chwaraeon. Mae hyn yn hyrwyddo trosglwyddo effeithiol i'r cam nesaf o'u haddysg.

Mae'r ysgol hefyd yn cydweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion cynradd y dalgylch i ddatblygu strategaethau rhifedd. Mae hyn wedi gwella adnabyddiaeth disgyblion y Cyfnod Sylfaen am werth lle a bondiau rhif ac wedi gwella cyrhaeddiad y disgyblion wrth ddatrys problemau rhifiadol yng nghyfnod allweddol 2.

Mae cydweithio effeithiol gydag ysgolion cynradd ac uwchradd y dalgylch i safoni a chymedroli asesiadau ar y cyd, wedi datblygu hyder athrawon wrth lefelu gwaith disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol i sicrhau ei bod yn ymateb yn llawn i egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Gwneir defnydd effeithiol o arbenigedd staff mewn gweithgareddau allgyrsiol sy'n cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus. Defnyddir cymorthyddion dosbarth a staff cefnogi yn effeithiol i roi cefnogaeth i unigolion a grwpiau o ddisgyblion.

Mae gan yr ysgol gynllun pwrpasol sydd, ar y cyfan, yn nodi cefnogaeth addas ar gyfer disgyblion difreintiedig drwy'r defnydd o'r grant amddifadedd. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn monitro'r ddarpariaeth na'r cynnydd yn ddigon cadarn er mwyn sicrhau effeithiolrwydd y cynllun ar ddeilliannau disgyblion.

Trwy broses rheoli perfformiad, mae anghenion datblygu'r staff yn cael eu hadnabod yn dda ac mae'r ysgol yn ymateb yn briodol i'w anghenion. Mae gan yr ysgol ystod briodol o adnoddau ac fe'u defnyddir yn effeithiol i gefnogi'r dysgu.

Mae cymuned ddysgu broffesiynol yn bodoli rhwng yr ysgol ac ysgolion eraill y dalgylch i ddatblygu strategaethau rhifedd. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau rhesymu rhifyddol y disgyblion hŷn. Mae'r ysgol yn ymateb yn llawn i ofynion statudol baich gwaith athrawon. Defnyddia'r athrawon eu hamser digyswllt yn effeithiol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.

Rheolir gwariant yn briodol gan y pennaeth a'r corff llywodraethol.

O ystyried deilliannau disgyblion dros gyfnod, mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6602155 - YSGOL GYNRADD LLANGOED**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 85 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 24.9 | |
| Grŵp PYD | 4 | (24%<PYD<=32%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 9 | 11 | 14 |
| | | | |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 66.7 | 63.6 | 92.9 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 |
| | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 9 | 11 | 14 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 66.7 | 63.6 | 92.9 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 2 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 11.1 | 18.2 | 28.6 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 2 |
| | | | |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 9 | 11 | 14 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 88.9 | 63.6 | 92.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 1 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 11.1 | 9.1 | 35.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 |
| | | | |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 9 | 11 | 14 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 90.9 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 77.8 | 72.7 | 78.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6602155 - YSGOL GYNRADD LLANGOED**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 85 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 24.9 | |
| Grŵp PYD | 4 | (24%<PYD<=32%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 14 | 11 | 13 | 9 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 64.3 | 90.9 | 84.6 | 77.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 2 | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 14 | 11 | 13 | 9 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 64.3 | 100.0 | 92.3 | 77.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 28.6 | 45.5 | 46.2 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 14 | 11 | 13 | 9 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 64.3 | 81.8 | 76.9 | 66.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 28.6 | 27.3 | 23.1 | 22.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 2 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 14 | 11 | 13 | 9 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 92.9 | 90.9 | 92.3 | 77.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 35.7 | 36.4 | 30.8 | 22.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 14 | 11 | 13 | 9 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 92.9 | 100.0 | 92.3 | 77.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 42.9 | 36.4 | 38.5 | 22.2 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 2 | 3 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 43 | 43<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 43 | 43<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 43 | 43<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 43 | 43<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 43 | 43<br>100% | 0<br>0% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 43 | 43<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 43 | 43<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 43 | 43<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 43 | 42<br>98% | 1<br>2% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 43 | 43<br>100% | 0<br>0% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 43 | 39<br>91% | 4<br>9% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 43 | 43<br>100% | 0<br>0% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

# Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 10 | 5<br>50% | 5<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 10 | 6<br>60% | 3<br>30% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 10 | 7<br>70% | 2<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 10 | 5<br>50% | 3<br>30% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 10 | 5<br>50% | 4<br>40% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 45% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 10 | 5<br>50% | 4<br>40% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 9 | 4<br>44% | 5<br>56% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 10 | 5<br>50% | 2<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 3 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 10 | 5<br>50% | 5<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 10 | 6<br>60% | 2<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 10 | 5<br>50% | 5<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 10 | 4<br>40% | 2<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 4 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 10 | 3<br>30% | 5<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 10 | 5<br>50% | 4<br>40% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 10 | 2<br>20% | 5<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 3 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 10 | 5<br>50% | 3<br>30% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 10 | 4<br>40% | 4<br>40% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 10 | 4<br>40% | 6<br>60% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 10 | 5<br>50% | 5<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 1% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Sioned Hywel Thomas | Arolygydd Cofnodol |
| Anwen Griffith | Arolygydd Tîm |
| Meleri Cray | Arolygydd Lleyg |
| David Davies | Arolygydd Cymheiriaid |
| Einion Williams | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.